

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor
Mawrth 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8147
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor
Mawrth 2012



Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Gwyn R Price
Llafur Cymru
Islwyn



Ken Skates
Llafur Cymru
De Clwyd



Rhodri Glyn Thomas
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion.....	5
1. Rhagymadrodd	8
2. Y cefndir	10
3. Yr Egwyddorion Cyffredinol a'r angen i ddeddfu (adran 1).....	12
4. Y pŵer i wneud Is-ddeddfau (adran 2).....	14
5. Dehongli (adran 3).....	18
6. Dirymu neu ddiwygio is-ddeddfau (adrannau 4-5).....	19
7. Y gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfau (adrannau 6-9)	23
8. Gorfodi is-ddeddfau (adrannau 10-11)	32
9. Hysbysiadau Cosbau Penodedig (adrannau 12-17).....	35
10. Amrywiol a chyffredinol (adrannau 18-23)	40
11. Atodlenni 1-2	42
12. Y goblygiadau ariannol	46
13. Y tystion	49
14. Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	50

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn. Gweler tudalennau perthnasol yr adroddiad er mwyn gweld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y mwyafrif llethol o'r tystion o blaid y Bil a'r angen i ddeddfu. Mae'r Pwyllgor wedi nodi slwadau'r Gweinidog ac mae'n croesawu symleiddio proses is-ddeddfau. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag egwyddorion y Bil a'r angen i ddeddfu. (Tudalen 13)

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gafwyd ynghylch adran 2 ac mae'n fodlon ar y darpariaethau y manylir arnyn nhw yn yr adran honno. (Tudalen 17)

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau yn adran 3. (Tudalen 18)

Argymhelliad 1..... Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ynghylch adrannau 4 a 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys dyletswydd i roi gwybod i gynghorau tref a chymuned perthnasol pan fydd is-ddeddf sy'n effeithio arnyn nhw yn cael ei dirymu. (Tudalen 22)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth y dylai'r awdurdodau deddfu ymgynghori ynghylch fersiwn drafft o'r is-ddeddfau arfaethedig, ar yr un pryd ag y maen nhw'n ymgynghori ar y datganiad cychwynnol (adran 6). (Tudalen 30)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai is-ddeddfau sydd i'w cadarnhau gan y Gweinidogion ddod o dan yr un darpariaethau ar ymgynghori ag is-ddeddfau nad ydyn nhw i'w cadarnhau gan y Gweinidogion. (Tudalen 30)

Argymhelliad 4. Nododd y Pwyllgor haerriad y Gweinidog fod yr amserlenni ymgynghori yn adlewyrchu'r amserlenni sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth bresennol. Ond, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn atal y ddeddfwriaeth newydd rhag gosod amserlenni gwahanol. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r cyfnod isaf ar gyfer ymgynghori (y manylir arno o dan adrannau 6-7) gael ei gynyddu o 1 mis i chwe wythnos er mwyn caniatáu rhagor o amser i

gynghorau tref a chymuned ymateb i unrhyw ymgynghori sy'n digwydd. (Tudalen 30)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan gynghorau tref a chymuned ynghylch eu gallu i wneud is-ddeddfau. Mae'r Pwyllgor wedi'i sicrhau gan haerriad y Gweinidog y gall y cyngorau tref a chymuned weithio gyda'r awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau, ond mae'r Pwyllgor yn credu bod angen egluro hyn ar wyneb y Bil. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio adran 8 i alluogi cyngorau tref a chymuned i gydymffurfio â gofynion yr adran drwy ddefnyddio prif swyddfa'r cyngor sir y mae'n gorwedd ynddi, ac y dylid rhoi rhagor o sylw i'r mater hwn yn y canllawiau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. (Tudalen 31)

Nododd y Pwyllgor dystiolaeth y Gweinidog a'r tystion ynghylch y darpariaethau o dan adrannau 10 ac 11 o'r Bil ac mae'n fodlon. (Tudalen 31)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth ynghylch y problemau sy'n gysylltiedig â hysbysiadau cosb benodedig. Mae'n dda gan y Pwyllgor nodi bod y Gweinidog yn cydgysylltu â'r Prif Gwnstabiailid yng Nghymru, ac mae'n argymhell y dylai hyn barhau, gyda golwg ar sicrhau cysondeb yn rôl PCSOs ledled Cymru. (Tudalen 39)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod weithiau'n ofynnol defnyddio hysbysiadau cosb benodedig. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r canllawiau a gyhoeddir gan y Gweinidog egluro mai fel y dewis olaf yn unig y dylai hysbysiadau cosb benodedig gael eu defnyddio. (Tudalen 39)

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau sydd wedi'u nodi yn adrannau 18 i 23. (Tudalen 41)

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch Atodlenni 1 a 2 o'r Bil ac mae'n fodlon na ddylai'r Parciau Cenedlaethol ddod o dan y weithdrefn ddiwygiedig ynglŷn ag is-ddeddfau ar hyn o bryd. (Tudalen 45)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried y mater a godwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch Deddf Morglawdd Tawe 1986, gyda golwg ar ei chynnwys hi, a

deddfwriaeth berthnasol arall, yn Atodlen 1 os yw'n briodol.

(Tudalen 44)

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y goblygiadau o ran costau a nododd y cynghorau tref a chymuned, ond mae'r Pwyllgor yn credu y dylai haerriad y Gweinidog y gall y cynghorau tref a chymuned weithio gyda'r awdurdodau lleol leddfu unrhyw faich ariannol ar y cynghorau tref a chymuned wrth iddyn nhw roi is-ddeddfau ar waith. (Tudalen 47)

1. Rhagymadrodd

1. Ar 28 Tachwedd 2011, cyflwynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC (“y Gweinidog”), Fil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)¹ (“y Bil”) a gwnaeth ddatganiad² yn y cyfarfod llawn³ drannoeth.

2. Yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2011, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y byddai'n cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (“y Pwyllgor”) er mwyn i'r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno'i adroddiad i'r Cynulliad erbyn 30 Mawrth 2012.

Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith cyffredinol ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

- i) yr angen i'r Bil ddarparu'r amcanion penodol a ganlyn:
 - galluogi awdurdodau lleol i gymryd perchnogaeth dros ddeddfau lleol;
 - darparu dull mwy uniongyrchol o orfodi drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig;
- ii) a yw'r Bil yn cyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;
- iii) y darpariaethau allweddol sydd wedi'u nodi yn y Bil ac a ydynt yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion;
- iv) rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt;
- v) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o'r Bil;
- vi) barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio o dan y trefniadau newydd.

¹ Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru), ar gael yn: <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=227840&ds=11/2011>

² Cofnod y Trafodion, 29 Tachwedd 2011, ar gael yn: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=227995&ds=11%2F2011#dat4> (DS: oni nodir fel arall, mae'r cyfeiriadau at Gofnod y Trafodion sy'n dilyn yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol)

³ Sef cyfarfod llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymagwedd y Pwyllgor

4. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddodd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar dudalen 49.
5. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae'r manylion i'w gweld ar dudalen 48.
6. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei waith.
7. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

2. Y cefndir

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

8. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 12, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

9. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol hefyd i wneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 6, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y Memorandwm Esboniadol

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol⁴ sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud:

“Mae'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol.”

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

“Mae'r Bil yn cyflwyno gweithdrefn amgen i awdurdodau lleol ei dilyn wrth wneud nifer o is-ddeddfau... Mae'r Bil arfaethedig hefyd yn cynnig dull amgen opsiynol, a mwy effeithlon, o orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig”.

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai un o brif amcanion y Bil yw:

“grymuso awdurdodau lleol i berchnogi'r deddfau lleol y maent hwy yn y sefyllfa orau i'w creu. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn ei bwerau a bod yr is-ddeddfau'n cael eu drafftio a'u gwneud yn briodol. Bydd gofyn i'r awdurdodau lleol ymgynghori'n gynnar â grwpiau y gallai'r is-ddeddf effeithio arnynt, yn ogystal â'u cymuned, os yw hynny'n berthnasol.”

⁴ Memorandwm Esboniadol Lywodraeth Cymru, ar gael yn:
<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=227841&ds=11/2011>

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn parhau:

“Un o amcanion polisi pwysig y ddeddfwriaeth hon yw darparu dull gorfodi mwy uniongyrchol drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig.”

3. Yr Egwyddorion Cyffredinol a'r angen i ddeddfu (adran 1)

Y cefndir

14. Mae'r Bil yn ceisio gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol. Mae'r Bil yn cyflwyno gweithdrefn amgen i awdurdodau lleol ei dilyn wrth wneud is-ddeddfau. Ar gyfer yr is-ddeddfau hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ymgynghori'n lleol cyn gwneud is-ddeddf ac yn dileu'r gofyniad bod rhaid sicrhau cadarnhad Gweinidogion Cymru. Mae'r Bil hefyd yn cynnig dull amgen opsiynol o orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig.

15. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg ar ddarpariaethau allweddol y Bil a'r hyn y mae'n ceisio ei sicrhau.

Tystiolaeth y tystion

16. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth o blaid y Bil.

17. Dywedodd Un Llais Cymru eu bod yn cefnogi egwyddorion y Bil a'u bod yn rhoi croeso yn arbennig i'r:

“proposals for simplification of procedures for making and enforcing local authority byelaws and welcomes the proposal for an alternative, and more efficient, means of enforcement through fixed penalty notices.”⁵

18. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

“the Bill will streamline procedures, reduce administrative burdens and should potentially speed up the byelaw making process in Wales and will provide greater flexibility to local authorities in terms of enforcement.”⁶

⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig LGB 1

⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig LGB 4

19. Roedd y Parciau Cenedlaethol⁷ yn credu bod angen newid y broses bresennol, gan ddweud “making byelaws is unwieldy and disproportionately time-consuming”.⁸

20. Roedd y mwyafrif o’r cynghorau tref a chymuned a ymatebodd o blaid y Bil, ond doedd Cyngor Cymuned Rhos-ddu ddim yn credu bod angen Bil gan nad oedd is-ddeddfau cymunedol wedi bod mewn pum mlynedd.⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

21. Dywedodd y Gweinidog:

“The Bill fulfils our commitment to simplifying the process for making, amending and revoking byelaws in Wales by removing the need for confirmation from Welsh Ministers. The Bill also introduces a more effective and efficient means of enforcement through the option of fixed penalty notices.”¹⁰

Ein barn ni

Mae’r Pwyllgor yn nodi bod y mwyafrif llethol o’r tystion o blaid y Bil a’r angen i ddeddfu. Mae’r Pwyllgor wedi nodi slwadau’r Gweinidog ac mae’n croesawu symleiddio proses is-ddeddfau. Mae’r Pwyllgor yn cytuno ag egwyddorion y Bil a’r angen i ddeddfu.

⁷ Cafodd y Pwyllgor Dystiolaeth Ysgrifenedig gan ‘Barciau Cenedlaethol Cymru’ a chan ‘Barc Cenedlaethol Eryri’ a dangosir y gwahaniaeth mewn modd priodol yn y cyfeirnodau yn y troednodiadau. Er hynny, dylid nodi bod y dystiolaeth lafar wedi’i rhoi gan Iwan Jones o Barc Cenedlaethol Eryri ond ei fod yn cynrychioli ‘Parciau Cenedlaethol Cymru’.

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 9 Chwefror 2012

⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig LGB 29

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 12 Ionawr 2012

4. Y pŵer i wneud Is-ddeddfau (adran 2)

Y cefndir

22. Mae adran 2 yn galluogi cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir i wneud is-ddeddfau er rheolaeth dda a llywodraeth ac er mwyn rhwystro ac atal niwsansau yn eu hardaloedd. Yn rhinwedd Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil, ni fydd is-ddeddfau sy'n cael eu gwneud o dan yr adran hon yn gorfod cael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru mwyach.

Tystiolaeth y tystion

23. Gofynnwyd i'r tystion ddweud a oedden nhw'n deall yr ymadrodd 'rheolaeth dda a llywodraeth a rhwystro ac atal niwsansau' yn adran 2 o'r Bil.

24. Dywedodd CLILC bod yr ymadroddion hyn wedi ennill eu plwyf yn dda iawn yn y gyfraith "via the Local Government Act 1972".¹¹

25. Er hynny, dywedodd Un Llais Cymru y byddai'n briodol pe bai'r ymadrodd yn cael ei esbonio ychydig yn fanylach.¹²

26. Cafwyd rhai pryderon hefyd o ran darpariaethau adran 2, ynghylch a fyddai is-ddeddf yn gorfod cael ei chymeradwyo gan 'y weithrediaeth' ynteu'r 'cyngor llawn'.

27. Dywedodd CLILC na ddylai fod yn ofynnol i bob cam o'r broses o wneud is-ddeddfau fynd gerbron y cyngor llawn, gan gredu bod eglurder i'r awdurdodau lleol yn bosibl drwy bennu ar wyneb y Bil a fyddai'r pŵer i wneud is-ddeddfau yn gymwys i'r cyngor llawn ynteu i'r weithrediaeth. Dywedodd CLILC:

"In the forthcoming Bill, it would be useful to have it specified that the power to make byelaws is for the full council, because you would be creating a new criminal offence or new legislation. Then, it [y Bil] should be specific about what the

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 18 Ionawr 2012

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 82, 1 Chwefror 2012

executive can do ... this would clarify matters for the councils that will have to implement this.”¹³

28. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe hefyd yn credu y dylai'r Bil roi eglurder, gan ddweud:

“The Council would request that the Bill makes clear whether the making of Byelaws is an executive or a Council matter. This will assist in ensuring the proper internal procedure is in place. In this respect, it would be helpful if the key stages in the making of a Byelaw which must go to Council for decision are set out in the Bill.”¹⁴

Tystiolaeth y Gweinidog

29. Pan ofynnwyd iddo ynghylch diffiniad yr ymadrodd ‘rheolaeth dda a llywodraeth a rhwystro niwsansau’, dywedodd y Gweinidog:

“the good rule element is an existing power from the Local Government Act 1972. No definition was provided in that Act, although that is not to say that it is right or wrong. However, it includes a clear understanding of what good rule and government is for local authorities that already deal with this...the rule can only be used in the governance of suppression or prevention of a nuisance.”¹⁵

30. Aeth y Gweinidog ymlaen:

“the process is not defined, and never has been. We believed that there is a common understanding across local authorities that use this rule”.¹⁶

31. Ychwanegodd un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru:

“By the nature of good rule and government for the prevention and suppression of nuisances, there is no definition...The onus

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 18 Ionawr 2012

¹⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 30

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 12 Ionawr 2012

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 12 Ionawr 2012

is always on the local authority to exercise its powers reasonably in respect of byelaw making”.¹⁷

32. Gofynnodd Aelodau i’r Gweinidog a oedd angen bodloni’r amodau ynglŷn â ‘rheolaeth dda a llywodraeth a rhwystro niwsansau’ ill dau. Dywedodd y Gweinidog nad yw’r amodau hyn yn y Bil a bod y naill neu’r llall yn gymwys.¹⁸

33. Pan ofynnwyd iddo ddweud a fyddai’n cymryd camau i sicrhau mai’r cyngor llawn yn unig a fyddai’n cael arfer y pwerau a fyddai’n cael eu rhoi i gynghorau lleol, atebodd y Gweinidog:

“that is already covered under regulation in the Local Government Act 2000, where it is stated that’s powers cannot be revoked by executive bodies if they are exercised by full council... if a council delegated the work of continuing with a byelaw to the executive, then my view is that that is right and proper.”¹⁹

34. Pan ofynnwyd a allai gwneud is-ddeddfau gael ei ddirprwyo i bwyllgor i’r cyngor, ac os felly i ba gyngor, dywedodd y Gweinidog:

“I do not have a view as to which committee this function should be delegated. It is for the local authority to designate.”²⁰

35. Rhoddodd y Gweinidog eglurhad ar rôl y cyngor llawn a’r weithrediaeth wrth wneud is-ddeddfau mewn llythyr i’r Pwyllgor wedyn. Dywedodd:

“The Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007 (‘the regulations’), provide that the power to make, amend, revoke or re-enact a byelaw is not a power for which an authority’s executive is to be responsible. The effect of this is that a power is the responsibility of the authority. I take the view that the regulations sufficiently and appropriately provide for the full

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 12 Ionawr 2012

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 22, Chwefror 2012

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 12 Ionawr 2012

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 22 Ionawr 2012

council to be engaged to a proportionate degree with regards to the key aspects of the byelaw process.”²¹

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gafwyd ynghylch adran 2 ac mae'n fodlon ar y darpariaethau y manylir arnyn nhw yn yr adran honno.

²¹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog, 6 Mawrth 2012. Ar gael yn: <http://www.senedd.assemblywales.org/mqIssueHistoryHome.aspx?Ild=2413>

5. Dehongli (adran 3)

Y cefndir

36. Mae adran 3 yn diffinio ystyr ‘awdurdodau deddfu’, sef y cyngorau sir a’r cyngorau bwrdeistref sirol, y cyngorau cymuned a’r awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Ni fydd y Bil yn gymwys i gyrff eraill sydd â phwerau i wneud is-ddeddfau yng Nghymru, megis elusennau a chwmnïau sydd hefyd yn gweithredu fel busnesau (er enghraifft awdurdodau harbyrau, awdurdodau meysydd awyr ac awdurdodau rheilffyrdd).

Tystiolaeth y Gweinidog

37. Gofynnodd y Pwyllgor i’r Gweinidog pam y mae darpariaethau’r Bil yn gymwys i’r awdurdodau sydd wedi’u rhestru yn adran 3 yn unig pan fo gyrff eraill yng Nghymru, megis cwmnïau preifat ac elusennau, sy’n cael gwneud is-ddeddfau. Dyma ymateb y Gweinidog:

“Our commitment was to create a local government bye-laws Bill, for local government, and to not go beyond that scope. That is why we have not included anybody else.”²²

Ein barn ni

Mae’r Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau yn adran 3.

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 12 Ionawr 2012

6. Dirymu neu ddiwygio is-ddeddfau (adrannau 4-5)

Y cefndir

38. Mae adran 4 yn ailddatgan pŵer cyffredinol yr awdurdodau deddfu i wneud is-ddeddfau i ddirymu eu his-ddeddfau eu hunain os nad oes pŵer penodol i wneud hynny'n bodoli. Yn rhinwedd Rhan 1 o Atodlen 1, ni fydd angen cadarnhad Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfau a fydd yn cael eu gwneud fel hyn. Y bwriad yw ei gwneud yn haws i'r awdurdodau ddirymu eu his-ddeddfau anarferedig eu hunain.

39. Mae adran 5 yn darparu pŵer ychwanegol i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddirymu is-ddeddfau pan fôn nhw'n credu bod y rheiny yn anarferedig. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Y bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth hon yw na fydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer hwn ond pan na fydd yn eglur pa bŵer sydd i ddirymu'r is-ddeddf neu pa awdurdod ddylai ddirymu'r is-ddeddf.”²³

Tystiolaeth y tystion

40. Trafododd y tystion ddefnyddio'r gair '*anarferedig*' yn adran 5 o'r Bill.

41. Dywedodd Un Llais Cymru nad oedd yn hollol glir²⁴ beth oedd ystyr anarferedig.

42. Er hynny, dywedodd y Parciau Cenedlaethol:

“Edrychais ar ddiffiniad y gair '*obsolete*', ac mae'n eithaf clir beth ydyw, sef rhywbeth nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol bellach. Felly, rwy'n berffaith hapus gyda'r defnydd o'r gair”.²⁵

43. Roedd rhai tystion yn credu bod y pŵer o dan Adran 5 i ddirymu is-ddeddfau yn aneglur. Dywedodd y Parciau Cenedlaethol:

²³ Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, tudalen 42, paragraff 17

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 1 Chwefror 2012

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 9 Chwefror 2012

“Ar hyn o bryd, mae’n ymddangos i mi fod pwerau gan Weinidogion Cymru i gael gwared arnynt, cyhyd â’u bod yn meddwl eu bod yn *obsolete*... Y bwriad y tu ôl iddo yw defnyddio’r pwerau hynny yn unig os daw’n amlwg nad yw’n saff iawn pwy sydd i fod i gael gwared arnynt, neu pe na bai’r corff yn bodoli mwyach. Nid yw hynny i’w weld yn Bil i mi.”²⁶

44. Awgrymodd y Parciau Cenedlaethol y dylai geiriad y Bil gael ei newid yn y fan yma i adlewyrchu’r pwynt yma.

45. Roedd CLILC yn cefnogi hawl Gweinidogion Cymru i ddirymu is-ddeddfau (adran 5), ond yn cytuno bod y pŵer yn aneglur a bod angen ei egluro. Dywedodd CLILC:

“The rationale behind the powers in Section 5 however is not included on the face of the Bill but is referred to in paragraph 17 of Annex 1 of the Explanatory Memorandum... It may therefore be beneficial to include this on the face of the Bill to provide clarity regarding the situations in which Welsh Ministers may seek to exercise the power.”²⁷

46. O’u holi, roedd CLILC yn credu:

“It would be clearer if it [y Bil] could state that, where the role of legislating authority is unclear or challenged the Minister has a role. It is just for the purpose of clarity.”²⁸

47. Cododd CLILC bryderon hefyd ynghylch y diffyg ymgynghori pan fydd Gweinidogion Cymru’n dirymu is-ddeddfau, gan ddweud:

“similar consultation provisions (as included for legislating authorities in section 6 and 7) should also apply to Welsh Ministerial powers of revocation, to ensure that ‘persons [*and authorities*] ...likely to be interested in, or affected by, the issue’ should be consulted prior to revocation.”²⁹

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 9 Chwefror 2012

²⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 4

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 18 Ionawr 2012

²⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 4

Tystiolaeth y Gweinidog

48. Dywedodd y Gweinidog fod ystyr '*anarferedig*' yn glir, gan ychwanegu:

“obsolete “means ‘out of use’, ‘not current’ or ‘out of date’. That is how we have defined obsolete.”³⁰

49. Mae adran 5(1) o'r Bil yn dweud:

“Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddirymu unrhyw is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu y maent **o'r farn** ei bod yn anarferedig.”³¹

50. O'i holi, dywedodd y Gweinidog mai mater drafftio yn unig oedd defnyddio'r geiriau 'o'r farn'. Ychwanegodd:

“... I think that ‘think’ is a reasonable word. It is used in Welsh Measures and Acts. However, if the committee suggests another suitable word, I am not opposed to using another ‘think’-type word.”³²

51. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog pam yr oedd wedi cadw'r pŵer wrth gefn i ddirymu is-ddeddfau anarferedig, ymatebodd:

“Where there is no ownership of the byelaw, it cannot be revoked. Therefore a council asks for a revocation of a byelaw it doesn't own, it would have to come to ... a Welsh Minister. That is just a fallback position. We do not intend to use this power other than subject to application.”³³

52. Gan gyfeirio at y darpariaethau ynghylch ymgynghori o dan adran 5, dywedodd y Gweinidog:

“the consultation process is very difficult, given that there are cases in which we do not know who the owner is in the first place. It has to fit into the section, which is why we framed that purely as a fall-back position.”³⁴

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 12 Ionawr 2012

³¹ Adran 5(1) o'r Bil

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 22 Chwefror 2012

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 12 Ionawr 2012

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 22 Chwefror 2012

Ein barn ni

Argymhelliad 1:

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ynghylch adrannau 4 a 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys dyletswydd i roi gwybod i gynghorau tref a chymuned perthnasol pan fydd is-ddeddf sy'n effeithio arnyn nhw yn cael ei dirymu.

7. Y gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfau (adrannau 6-9)

Y cefndir

53. Mae adran 6 yn sefydlu gweithdrefn newydd ar gyfer gwneud is-ddeddfau penodol na fydd angen iddyn nhw gael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru. Bydd i'r weithdrefn newydd ar gyfer gwneud yr is-ddeddfau hyn dri chyfnod.

54. Bydd y weithdrefn newydd yn gymwys i unrhyw is-ddeddfau a fydd yn cael eu gwneud gan awdurdodau deddfu o dan y deddfiadau penodol sydd wedi'u nodi yn Rhan 1 o Atodlen 1.

55. Mae adran 7 yn manylu ar y broses ar gyfer gwneud is-ddeddfau y bydd yn dal yn angenrheidiol eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru. Mae adran 7 yn ailddatgan ac yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer gwneud yr is-ddeddfau hynny y mae arnyn nhw angen cadarnhad Gweinidogion Cymru. Bydd y weithdrefn hon yn gymwys i unrhyw is-ddeddfau a fydd yn cael eu gwneud o dan unrhyw ddeddfiad heblaw'r deddfiadau sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 1.

56. Mae adran 7 hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch pwy yw'r awdurdod cadarnhau, sef naill ai'r awdurdod a bennwyd yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddfau neu, os nad oes awdurdod wedi'i bennu, Gweinidogion Cymru. Os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cadarnhau, mae is-adran (9) yn darparu bod eu swyddogaethau 'yn arferadwy yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol'.

57. Mae adran 8 yn ymdrin â nifer o faterion technegol ynghylch materion ffurfiol gwneud is-ddeddfau, cychwyn eu darpariaethau a'u cyhoeddi.

58. Mae adran 9 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r rhestr o is-ddeddfau penodol nad oes angen cadarnhad y Gweinidogion ar eu cyfer (hynny yw Rhan 1 o Atodlen 1).

Tystiolaeth y tystion

59. O ran adran 6 (Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) dywedodd Un Llais Cymru:

“Concern has been raised ... that the removal of Ministerial confirmation will reduce the credibility of any byelaws introduced at the very local level especially if they are controversial and could result in contestation”³⁵

60. Credai Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd fod yna fanteision petai is-ddeddfau'n cael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru, gan ddweud:

“We are not entirely sure that removing the requirement for confirmation will be particularly beneficial, as we value the Welsh Ministers' role in scrutinising new byelaws.”³⁶

61. Cyfeiriodd Un Llais Cymru at yr ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru³⁷ a gynhaliwyd cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, ynghylch cynghorau tref a chymuned unigol. Dywedodd Un Llais Cymru:

“At that time, a few of them felt that the removal of ministerial confirmation would undermine the status of implementation and credibility at local level. Having said that, it is not the view of the whole sector.”³⁸

62. Barn ychydig yn wahanol oedd gan Gymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf y Gogledd, a ddywedodd:

“This is where the approval of the bye-laws, if not at ministerial level, then at unitary council level, is important ... There still needs to be a level of some sort above the town or community council to sign off bye-laws so that you avoid that situation.”³⁹

63. Er hynny, roedd CLILC yn fodlon gweld cadarnhad y Gweinidogion yn cael ei ddileu mewn perthynas ag is-ddeddfau o dan adran 6. Dywedodd y Gymdeithas:

³⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

³⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 23

³⁷ Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, adran 4

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 1 Chwefror 2012

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 9 Chwefror 2012

“We like the fact that ministerial approval is removed from the process. Local authorities are eminently capable of making their own byelaws.”⁴⁰

64. Roedd y Parciau Cenedlaethol yn cytuno na ddylai fod yn ofynnol sicrhau cadarnhad y Gweinidogion, gan ddweud “we should have the ability to proceed with byelaws without having ministerial consent”.⁴¹

65. Roedd CLILC yn cytuno y dylai fod yn ofynnol o hyd sicrhau cadarnhad y Gweinidogion ar gyfer rhai is-ddeddfau (adran 7), gan ddweud y byddai is-ddeddfau lle byddai angen cadarnhad gan y Gweinidogion yn feysydd y mae gan Weinidogion Cymru ddiddordeb polisi ynddyn nhw “and it is appropriate they have a role in that.”⁴²

66. Roedd Un Llais Cymru’n credu y dylai’r Gweinidog barhau i gadarnhau rhai is-ddeddfau, gan ddweud:

“For any bye-law that relates to strategic matters or children, as referred to in the explanatory memorandum, I think that there is a recourse there for the Minister to have an overview of the process.”⁴³

67. Cafodd cwestiwn ymgynghori ynghylch is-ddeddfau y byddai angen cadarnhad y Gweinidogion iddyn nhw ei godi gan y tystion. Dywedodd y Parciau Cenedlaethol: “I think that you should still consult locally, even if it is a section 7 byelaw”.⁴⁴

68. Er ei bod yn debyg y byddai’r awdurdodau’n ymgynghori ynghylch is-ddeddfau y byddai angen cadarnhad iddyn nhw, roedd CLILC yn credu na ddylai hynny fod yn ofynnol yn statudol. Dywedodd y Gymdeithas:

“The confirmation process is the current approach and authorities consult on the issues, but ... it is not a statutory requirement and it is not ... as detailed as this new process”⁴⁵

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 18 Ionawr 2012

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 9 Chwefror 2012

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 18 Ionawr 2012

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 74, 1 Chwefror 2012

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 9 Chwefror 2012

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 82, 18 Ionawr 2012

69. Ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd am y darpariaethau ynghylch ymgynghori ynglŷn ag is-ddeddfau na fyddai angen cadarnhad iddyn nhw (adrannau 6 ac 8).

70. O ran ymgynghori ar y datganiad ysgrifenedig cychwynnol, dywedodd Un Llais Cymru hyn: “getting consultation right at the outset was key”⁴⁶, ac fe fydden nhw’n croesawu canllawiau manylach ar sut i ymgynghori. Aethant yn eu blaen:

“Poor consultation at the outset could lead to poor bye-laws being drafted and, consequently, we could have contestation further down the line. It is about putting the effort upfront and doing the pre-consultation and consultation with wider stakeholder organisations, which would, hopefully, alleviate any further issues in terms of the final drafting.”⁴⁷

71. Roedd Un Llais Cymru’n arbennig o bryderus ynghylch sut y byddai’r gofynion ynghylch ymgynghori yn effeithio ar gynghorau tref a chymuned, gan ddweud:

“a Welsh Government survey⁴⁸ in 2010 identified only one in ten community and town councils have a community engagement policy in place and none of these had a specific budget for community engagement”⁴⁹

72. Ychwanegodd Un Llais Cymru:

“It is about the guidance that supports the Bill. It states that you can consult via a website, but, back in 2010, 47% of our community and town councils did not have a website. Some of the language in the Bill is not applicable to the sector, because it does not have the IT resources to deliver on the content of the Bill.”⁵⁰

73. Nododd Un Llais Cymru bryder arall i gynghorau tref a chymuned ac yn arbennig i’r cynghorau lleiaf:

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 1 Chwefror 2012

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 1 Chwefror 2012

⁴⁸ Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, adran 4

⁴⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 1 Chwefror 2012

“There may not be a ‘principal office’ rather the Clerk works from home and consequently there may be issues of accessibility. Again, guidance is needed to set out how this obstacle may be overcome.”⁵¹

74. Cododd tystion gwestiynau hefyd am yr amserlenni ymgynghori y manylir arnyn nhw yn y Bil. Dywedodd Un Llais Cymru: “a month is a fairly short space of time if you have a community council that only had three or four hours of a clerk’s time at its disposal. So, the timescale could be an issue for some community councils”.⁵²

75. Credai CLILC fod y darpariaethau ynghylch ymgynghori’n ddigonol. Er hynny, roedd y Gymdeithas yn credu hefyd fod yna faterion i’w hystyried “around timescales for laying and tabling of byelaws ... in terms of engagement with community councils.”⁵³

76. Doedd y Parciau Cenedlaethol ddim yn gofidio ynghylch yr amserau ymgynghori a ragnodwyd yn y Bil, gan ddweud:

“I know a month does not sound like an awfully long time, but you have to remember that it can be more than a month if the local authority thinks that it is a particularly complicated matter.”⁵⁴

77. Roedd CLILC yn awyddus i egluro a allai papur newydd yr awdurdod ei hun gael ei ddsbarthu’n ‘bapur newydd lleol’ at ddibenion ymgynghori, gan ddweud:

“In Swansea, our local newspaper has a very wide circulation, and, quite frankly, from the authority’s point of view, it is considerably less expensive to put it in there than in the *South Wales Evening Post*.”⁵⁵

78. Er hynny, dywedodd Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf y Gogledd:

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig LGB1

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 1 Chwefror 2012

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 18 Ionawr 2012

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 9 Chwefror 2012

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 67, 18 Ionawr 2012

“The advert in the local newspaper is probably now the least effective method because we are now moving into a world of the internet”.⁵⁶

Tystiolaeth y Gweinidog

79. O ran dileu cadarnhad gan y Gweinidogion i rai is-ddeddfau, dywedodd y Gweinidog hyn: “the case for making byelaws is that generally the issues are very local issues. They are made by local authorities, which are best placed to make such decisions”.⁵⁷

80. Doedd y Gweinidog ddim yn cytuno bod angen cadarnhad gan y Gweinidogion o hyd ar gyfer rhai is-ddeddfau, gan ddweud:

“By removing the requirement for confirmation by a Minister, we will remove a layer of bureaucracy...we think the risk is minimal. The risk being only a proper lack of scrutiny and consultation”.⁵⁸

81. Ychwanegodd y Gweinidog wedyn:

“The purpose [sef diben y Bil] was to push that function [sef gwneud is-ddeddfau] down to community councils and unitary authorities...I believe local determination is right’.⁵⁹

82. O ran ymgynghori ynghylch is-ddeddfau a fyddai’n cael eu gwneud o dan adran 7, dywedodd y Gweinidog:

“We believe that local consultation should happen; it is non-statutory, but we still believe that it is the right thing to do. Then, the decision on whether we proceed with the bye-law is very similar to the alternative procedure without confirmation. The authority will make the bye-law, and then it will be published and ready for inspection by interested parties. That process will be under scrutiny by the people affected by the bye-law, which will be submitted to the Welsh Minister for confirmation.”⁶⁰

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 9 Chwefror 2012

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 12 Ionawr 2012

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 12 Ionawr 2012

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 22 Chwefror 2012

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 144, 12 Ionawr 2012

83. O ran ymgynghori ar y datganiad ysgrifenedig cychwynnol, dywedodd y Gweinidog:

“There seems to be little or limited point in consulting after the byelaw has been created. It is really important that you get views beforehand on the subject of the byelaw being considered.”⁶¹

84. O'i holi am amserlen ymgynghori, yn ei sesiwn tystiolaeth cychwynnol, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ei hystyried.⁶²

85. Ond yn y sesiwn tystiolaeth terfynol, dywedodd y Gweinidog:

“If you want me to be controversial on the small issue of the month for consultation, I will say this: if we are making byelaws appropriately, at a town and community council or unitary authority level, or whatever, we have to grow up and come into the twenty-first century. If that means us having an interim meeting in a two week cycle to comply with some of the regulations, so be it. This is not a new number; that is what authorities deal with now. The committee may have a view on lengthening that period. However, we believe that a month is appropriate, and authorities—be they town and community councils or local authorities—can call for special meetings in order to deal with these issues. We have to come into the twenty-first century.”⁶³

86. Aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio'r rhesymau dros y cyfnod ymgynghori isaf o un mis, gan ddweud:

“that period mirrors the requirements in the [Local Government] 1972 Act ... I do not support the argument that one month is the wrong timeline... authorities, be they town and community councils or local authorities, can call for special meetings in order to deal with these issues. We have to come into the twenty-first century.”⁶⁴

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 12 Ionawr 2012

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 12 Ionawr 2012

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 22 Chwefror 2012

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 22 Chwefror 2012

87. Ar y cwestiwn a gâi awdurdod lleol ddefnyddio'i bapur newydd ei hun at ddibenion ymgynghori, dywedodd y Gweinidog y byddai'r canllawiau'n pennu camau:

“to maximise the process for enabling people to be consulted, be that through newspapers or local authorities' own newsletters.”⁶⁵

88. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n fodlon cryfhau'r canllawiau a fyddai'n cael eu cyhoeddi, “subject to the views of the committee”.⁶⁶

89. O ran y problemau sy'n wynebu cyngorau tref a chymuned wrth fodlonir gofynion ynghylch ymgynghori, dywedodd y Gweinidog: “they could work in collaboration with the unitary authority...There are ways around this”.⁶⁷

Ein barn ni

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth y dylai'r awdurdodau deddfu ymgynghori ynghylch fersiwn drafft o'r is-ddeddfau arfaethedig, ar yr un pryd ag y maen nhw'n ymgynghori ar y datganiad cychwynol (adran 6).

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai is-ddeddfau sydd i'w cadarnhau gan y Gweinidogion ddod o dan yr un darpariaethau ar ymgynghori ag is-ddeddfau nad ydyn nhw i'w cadarnhau gan y Gweinidogion.

Argymhelliad 4: Nododd y Pwyllgor haerid y Gweinidog fod yr amserlenni ymgynghori yn adlewyrchu'r amserlenni sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth bresennol. Ond, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn atal y ddeddfwriaeth newydd rhag gosod amserlenni gwahanol. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r cyfnod isaf ar gyfer ymgynghori (y manylir arno o dan adrannau 6-7) gael ei gynyddu o 1 mis i chwe wythnos er mwyn caniatáu rhagor o amser i gynghorau tref a chymuned ymateb i unrhyw ymgynghori sy'n digwydd.

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 22 Chwefror 2012

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, 12 Ionawr 2012

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 89, 22 Chwefror 2012

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan gynghorau tref a chymuned ynghylch eu gallu i wneud is-ddeddfau. Mae'r Pwyllgor wedi'i sicrhau gan haerriad y Gweinidog y gall y cynghorau tref a chymuned weithio gyda'r awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau, ond mae'r Pwyllgor yn credu bod angen egluro hyn ar wyneb y Bil. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio adran 8 i alluogi cynghorau tref a chymuned i gydymffurfio â gofynion yr adran drwy ddefnyddio prif swyddfa'r cyngor sir y mae'n gorwedd ynddi, ac y dylid rhoi rhagor o sylw i'r mater hwn yn y canllawiau a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru.

8. Gorfodi is-ddeddfau (adrannau 10-11)

Y cefndir

90. Mae adrannau 10 ac 11 yn ymwneud â gorfodi is-ddeddfau. Mae adran 10 yn ymdrin â 'tramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau'. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

“Caiff is-ddeddfau a wneir gan awdurdod perthnasol ddarparu bod personau sy'n mynd yn groes i'r is-ddeddfau yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy.”⁶⁸

91. Rhaid i'r ddirwy beidio â bod yn fwy na'r swm sydd wedi'i bennu gan y deddfiad perthnasol neu, os nad oes swm wedi'i bennu, lefel 2 ar y raddfa safonol, sef £500 ar hyn o bryd.

92. Mae adran 11 yn ymdrin ag 'is-ddeddfau adran 2; pwerau ymafael etc'. Mae'n galluogi cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol i gyplysu pwerau i gipio ac i gadw unrhyw eiddo mewn cysylltiad â thorri is-ddeddf a wnaed o dan adran 2, ynghyd â darpariaeth ynghylch fforffedu eiddo o'r fath os collfarnir rhywun am beidio â chydymffurfio neu am dorri unrhyw is-ddeddf.

Tystiolaeth y tystion

93. Rhoddodd y mwyafrif o'r tystion groeso i'r darpariaethau estynedig ynglŷn â gorfodi yn y Bil, ond fe gafodd pryderon eu codi y gallai fod yn anodd eu rhoi ar waith.

94. Rhoddodd CLILC groeso i'r darpariaethau estynedig ynglŷn â gorfodi, gan ddweud:

“All fixed penalties should help with enforcement. The problem is that the track record of enforcement around bye-laws is varied at best... It gives a legal sanction and a threat, but the enforcement is the key issue behind that.”⁶⁹

95. Gofynnwyd i CLILC a oedd yn rhesymol i uchafswm y ddirwy o dan adran 10 gael ei bennu ar £500, er bod uchafswm y gosb benodedig o dan adran 13 yn £75. Dywedodd y Gymdeithas:

⁶⁸ Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, adran 10

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 18 Ionawr 2012

“It is line with the legislation, which is the Local Government Act 1972 ... It is the same level, which is level 2, and I imagine that it has been taken from that Act...With regard to enforcement, I am sure that officers in all councils do not wish to prosecute or give a fixed penalty, but to try to encourage, persuade and ask nicely, if you like.”⁷⁰

96. Aeth y Gymdeithas ymlaen i ddweud:

“From our point of view, we would not want to see a situation where people’s property was seized on the back of this; that would only be used in the most extreme circumstances.”⁷¹

97. Er eu bod hwythau’n croesawu’r darpariaethau gorfodi, dywedodd Un Llais Cymru:

“The provisions relating to enforcement are at face value workable however the availability of adequate resources to enforce byelaws will be the determining factor as to whether they will be utilised and if used whether they will be effective or not.”⁷²

98. O ran y cynigion ymafael yn adran 11, dywedodd Un Llais Cymru:

“Given the potential conflict that could arise in relation to any seizure process and/or discharging of fixed penalty notices One Voice Wales would welcome guidance on each of these processes to ensure the health and safety of those administering the process is comprehensively addressed and that clear procedures are set down prescribing how each process is enacted by the legislating authority. It is not entirely clear however whether the powers relating to seizure are relevant to community and town councils.”⁷³

99. Roedd Cymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwyaf y Gogledd yn poeni y byddai’n anodd rhoi materion ymarferol ar waith ynglŷn â gorfodi is-ddeddfau, gan ddweud:

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 89, 18 Ionawr 2012

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 18 Ionawr 2012

⁷² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

⁷³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

“Making them is the easy bit. Writing something down in an Act of Parliament is not too difficult. Enforcing it is a different animal altogether.”⁷⁴

Tystiolaeth y Gweinidog

100. O ran lefel y ddirwy y manylir arni o dan adran 10, dywedodd y Gweinidog:

“We have not raised it. The provision in the Bill is derived from the Local Government Act 1972. The maximum fine is set by specific bye-law powers that enable legislation. The amount does not exceed level 2 on the standard scale. We do not believe that it is unreasonable.”⁷⁵

101. Dywedodd y Gweinidog fod adran 11, ynghylch pwerau i ymafael mewn eiddo, yn aralleiriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Meddai:

“we are recasting what is in the 1972 Act—we have just lifted and moved across the provisions on power of seizure. It can only be exercised by county and county borough councils in relation to section 2, but again, it is not new—we have just moved that across.”⁷⁶

Ein barn ni

Nododd y Pwyllgor dystiolaeth y Gweinidog a’r tystion ynghylch y darpariaethau o dan adrannau 10 ac 11 o’r Bil ac mae’n fodlon.

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 9 Chwefror 2012

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 12 Ionawr 2012

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 22 Chwefror 2012

9. Hysbysiadau Cosbau Penodedig (adrannau 12 – 17)

102. Mae adrannau 12-17 ym ymdrin â hysbysiadau cosb benodedig.

103. Mae adran 12 yn creu cyfundrefn o hysbysiadau cosb benodedig fel ffordd amgen o orfodi is-ddeddfau penodol. Mae'r mathau o is-ddeddfau y gall hysbysiadau cosb benodedig gael eu defnyddio ar eu cyfer wedi'u rhestru yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil. Mae adran 12 hefyd yn nodi'r gweithdrefnau angenrheidiol ynglŷn â rhoi hysbysiadau cosb benodedig o'r fath.

104. Os nad oes swm wedi'i bennu gan yr awdurdod deddfu, mae adran 13 yn dweud mai £75 fydd swm y gosb benodedig. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i gyfyngu ar ystod y cosbau a all gael eu gosod. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cael amrywio'r swm o £75 a hynny drwy orchymyn.

105. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i berson y mae swyddog awdurdodedig yn dymuno rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo roi enw a chyfeiriad. Tramgwydd yw peidio â gwneud hynny, sef tramgwydd a all gael ei gosbi â dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000).

106. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau deddfu roi sylw, wrth ystyried sut i ddefnyddio'u derbyniadau o gosbau penodedig, i pa mor ddymunol fyddai defnyddio'r arian i fynd i'r afael â niwsans y cafodd yr is-ddeddf ei gwneud i'w atal. Serch hynny, does dim rhaid iddo gael eu defnyddio tuag at fynd i'r afael â'r niwsans penodol y mae'r is-ddeddf berthnasol yn ymwneud ag ef.

107. Mae adran 16 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y rhestrau o is-ddeddfau penodol y gall hysbysiadau cosb benodedig gael eu defnyddio ar eu cyfer (hynny yw Rhan 2 o Atodlen 1).

108. Mae adran 17 yn caniatáu i'r pŵer ynglŷn â gosod hysbysiadau cosb benodedig gael eu arfer gan Swyddogion Cymorth Cymunedol, gyda chytundeb yr awdurdod deddfu a phrif swyddog heddlu'r ardal.

Tystiolaeth y tystion

109. At ei gilydd, roedd y tystion yn fodlon ar y darpariaethau ynghylch hysbysiadau cosb benodedig o dan adrannau 12-17. Dywedodd CLILC:

“The enforcement provisions, in particular the option to issue fixed penalties, are welcomed as they provide authorities with greater range of options with which to enforce byelaws.”⁷⁷

110. Dywedodd Cyngor Tref yr Wyddgrug:

“It also accepts that the alternative approach to enforcement, through fixed penalty notices, will be a more effective and efficient form of enforcement action rather than through the Magistrates Courts.”⁷⁸

111. Er bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn croesawu hysbysiadau cosb benodedig, roedden nhw'n credu y byddai gan y cyngor broblem o ran gorfodi o hyd, a hynny am y rheswm a ganlyn:

“if someone who is suspected to be in breach of a Byelaw refuses to give their name or co-operate local authority officers have no powers of arrest or detention. It is due to this issue that Byelaws cannot be enforced on certain occasions. If it were possible to give local authority officers relevant powers in the Bill that would be a large help in enforcement.”⁷⁹

112. Roedd y Parciau Cenedlaethol am bwysleisio “the desirability of the power to impose fixed penalties being extended to National Park Authorities in order to produce maximum public benefit”.⁸⁰

113. Dywedodd Un Llais Cymru na fyddai ganddyn nhw'r adnoddau i roi hysbysiadau cosb benodedig ar waith.⁸¹

114. Ym marn Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf y Gogledd, “PCSOs (Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) could if empowered, be able to help with the enforcement of byelaws.

⁷⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 4

⁷⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 14

⁷⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 30

⁸⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 32

⁸¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

However, they do not have these powers given to them in all areas (Powys is one such case)".⁸²

115. Dywedodd Cymdeithas Cyngorau Trefi a Chymunedau Mwyaf y Gogledd hyn hefyd yn eu tystiolaeth lafar 'the trouble is the Chief Constable decides which powers he will give the PCSOs in his area and which ones he will not. If we are going to have something like this we need the backing of the PCSOs.'⁸³

116. Roedd y tystion yn fodlon i'r Gweinidog gael gwneud rheoliadau ynghylch swm hysbysiadau cosb benodedig. Dywedodd CLILC:

"If £75 is widely regarded, following implementation, as being too high, because people are not paying it, or too low in certain circumstances, because it is not acting as a deterrent, it is appropriate for the Minister to have that flexibility under this legislation to make regulations to change that amount."⁸⁴

117. Roedd y tystion yn fodlon hefyd ar adran 14, sef os bydd swyddog awdurdodedig yn bwriadu rhoi hysbysiad i berson o dan adran 12, y caiff y swyddog ei gwneud yn ofynnol i'r person roi ei enw a'i gyfeiriad. Gallai methu â gwneud hynny arwain at ddirwy lefel 3 ar y raddfa safonol, sef uchafswm o £1000.

118. Dywedodd CLILC:

"The intention behind this piece of legislation is to deal with people who obstruct officers in the course of their duties. The fine will be a matter for the court. It seems inconsistent, but, at the same time, there are circumstances, when you get to that level of obstruction, under which the threat of such a fine helps the system and facilitates the process."⁸⁵

Tystiolaeth y Gweinidog

119. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch y pryderon a godwyd y byddai gorfodi is-ddeddfau drwy hysbysiadau cosb benodedig yn anodd i gynghorau tref a chymuned. Dywedodd y Gweinidog:

⁸² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 28

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 9 Chwefror 2012

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 18 Ionawr 2012

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 18 Ionawr 2012

“I recognise that, and again, I work with One Voice Wales to strengthen support for town and community councils across Wales, recognising that there are still some small councils that would probably find it difficult. I raised the point earlier about how they could—and I would expect them to—start working in collaboration with their primary unitary authority, so that they could help with some of these issues that they may wish to deal with under a bye-law. This is not an easy one, because, again, recognising that some of the town and community councils are very small, nevertheless a bye-law may be equally important to them as to as a unitary authority. It is just the way that, procedurally, they would deal with that.”⁸⁶

120. O ran y pwerau i ymafael mewn eiddo y manylir arnyn nhw o dan adran 11, dywedodd y Gweinidog:

“we are recasting what is in the [Local Government] 1972 Act—we have just lifted and moved across the provisions on power of seizure. It can only be exercised by county and county borough councils in relation to section 2, but again, it is not new—we have just moved that across.”⁸⁷

121. O’i holi a oedd yn pryderu ynghylch y gwahaniaethau yn rolau’r PCSOs ledled Cymru, cytunodd y Gweinidog ei fod yn pryderu, gan ddweud:

“Yes, it does. I have raised this during my regular meetings with Wales’s chief constables. I am not concerned about the variety of powers that they have. The chief constables have made it clear what they believe their CSOs should or should not be doing. What concerns me is the complexity of there being the same or similar bye-laws in more than one authority, in an area that crosses a police boundary, and what would happen if the CSOs had different powers to enact them. I have asked the chief constables to look at the power of CSOs across Wales so that we can have some consistency.”⁸⁸

Ein barn ni

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 22 Chwefror 2012

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 22 Chwefror 2012

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 22 Chwefror 2012

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth ynghylch y problemau sy'n gysylltiedig â hysbysiadau cosb benodedig. Mae'n dda gan y Pwyllgor nodi bod y Gweinidog yn cydgysylltu â'r Prif Gwnstabiliaid yng Nghymru, ac mae'n argymhell y dylai hyn barhau, gyda golwg ar sicrhau cysondeb yn rôl PCSOs ledled Cymru.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod weithiau'n ofynnol defnyddio hysbysiadau cosb benodedig. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r canllawiau a gyhoeddir gan y Gweinidog egluro mai fel y dewis olaf yn unig y dylai hysbysiadau cosb benodedig gael eu defnyddio.

10. Amrywiol a chyffredinol (adrannau 18-23)

Y cefndir

122. Mae adran 18 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi canllawiau statudol i'r awdurdodau ynghylch gweithdrefnau ynglŷn â gwneud is-ddeddfau a'u gorfodi. Mae'n 'rhaid i awdurdod deddfu roi sylw i'r canllawiau wrth wneud neu wrth orfodi is-ddeddfau'.

123. Mae adran 19 yn gwneud darpariaeth ynghylch defnyddio copïau ardystiedig fel tystiolaeth o fodolaeth is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod deddfu, yn achos is-ddeddfau nad ydyn nhw'n dod o dan y weithdrefn gadarnhau.

124. Mae adran 20 yn rhoi ei heffaith i Atodlen 2 sy'n gwneud diwygiadau mân a chanlyniadol i nifer o ddeddfiadau sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch gwneud is-ddeddfau.

125. Mae adran 21 yn nodi gweithdrefnau Cynulliad sydd i fod yn gymwys i unrhyw reoliadau a gorchmynion a fydd yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

126. Mae adran 22 yn darparu i'r Ddeddf ddod i rym yn sgil gorchymyn cychwyn, ac mae adran 23 yn nodi enw byr y Ddeddf.

Tystiolaeth y tystion

127. Roedd CLILC yn fodlon ar y materion sydd wedi'u rhestru yn adran 18, gan ddweud:

"The matters seem appropriate. When the Welsh Government consulted on the policy in 2010, authorities generally welcomed the idea that there would be statutory guidance, particularly around the issue of model bye-laws, which are currently available, certainly in the English context. The Minister mentioned last week in evidence that model bye-laws would be used. So, we think that it is appropriate."⁸⁹

128. Roedd Cymdeithas Cyngorau Trefi a Chymunedau Mwyaf y Gogledd hefyd yn fodlon ar adran 18, er eu bod yn credu y gellid

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 18 Ionawr 2012

manylu ar wyneb y Bil ar ddarpariaeth ynglŷn â llyfryn cyfarwyddyd yn cynnwys darpariaethau enghreifftiol.⁹⁰

129. Rhoddodd y Parciau Cenedlaethol groeso i'r canllawiau a fyddai'n cael eu darparu gan Weinidogion Cymru, gan ddweud:

“I welcome the fact that the Welsh Ministers will provide guidance, because one of the concerns raised by the national park authorities is that, if you remove the requirement for ministerial consent, you could have a fracturing of the quality in the bye-law making process. Hopefully, by having the guidance and a set of model bye-laws, the whole process will work seamlessly.”⁹¹

130. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi cyflwyno adroddiad ar faterion ynglŷn â gweithdrefnau Cynulliad ar gyfer rheoliadau a gorchmynion.⁹²

Tystiolaeth y Gweinidog

131. Yn ystod y sesiynau tystiolaeth, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai canllawiau'n cael eu darparu, gan ddweud:

“we are more than happy to provide guidance and support around model bye-laws.”⁹³

132. Rhoddodd y Gweinidog ragor o fanylion i'r Pwyllgor am y canllawiau ac am is-ddeddfau enghreifftiol.⁹⁴

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau sydd wedi'u nodi yn adrannau 18 i 23.

⁹⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 28

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 9 Chwefror 2012

⁹² Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru): <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=231851&ds=3/2012>

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 22 Chwefror 2012

⁹⁴ Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog: Llythyr 1, ar gael yn: <http://www.senedd.assemblywales.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=2413>

11. Atodlenni 1-2

Y cefndir

133. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn gymwys i adran 6 ac mae'n rhestru'r deddfiadau y gwneir is-ddeddfau o danynt nad ydyn nhw'n gorfod cael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru.

134. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn gymwys i adran 12 ac mae'n rhestru'r deddfiadau y gwneir is-ddeddfau o danynt a all gael eu cyflawni drwy hysbysiad cosb benodedig.

135. Mae Atodlen 2 yn rhestru'r diwygiadau mân a chanlyniadol sy'n cael eu gwneud gan y Bil i nifer o deddfiadau sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch gwneud is-ddeddfau.

Tystiolaeth y tystion

136. Yn ystod y sesiynau tystiolaeth, nodwyd nad yw'r deddfiadau yn Rhan 1 o Atodlen 1 yn rhestr gynhwysfawr. Dywedodd CLILC:

“The list in Part 1 of Schedule 1 seems fairly comprehensive, although it does not include everything, perhaps unsurprisingly. However, the Minister will have the power to change and amend that list.”⁹⁵

137. Nododd Cyngor Dinas a Sir Abertawe “the Bill does not contain in Part 1 of Schedule 1 every enactment under which the City and County of Swansea has made Byelaws.”⁹⁶

138. Aeth y Cyngor ymlaen:

“A notable omission which relates to Swansea only is the Tawe Barrage Act 1986. The Cardiff Bar Barrage Act 1993 is included in Part 1 of Schedule 1 of the Bill and the Council would request that the Tawe Barrage Act is also included.”⁹⁷

139. Mynegodd tystiolaeth Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol awydd i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gael eu cynnwys yn

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 18 Ionawr 2012

⁹⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 30

⁹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 30

awdurdod deddfu ar gyfer y deddfiadau sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 1.

140. Dywedodd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fod y Bil yn briodol "except in so far as they fail, at present, to confer the full subject-matter of the reforms, from which County Councils will benefit, to National Park Authorities".⁹⁸

141. Aeth yr Awdurdodau ymlaen: "it is considered desirable, to maximise public benefit, that the reforms are extended to National Park Authorities".⁹⁹

142. Roedd CLILC yn cytuno y dylai'r weithdrefn newydd ar gyfer gwneud is-ddeddfau gynnwys y Parciau Cenedlaethol gan ofyn a ddylai deddfwriaeth parciau cenedlaethol gael ei hystyried. Dywedodd CLILC:

"One point that is important to highlight is that, subsequent to our submitting our written evidence, the national parks, which are associate members of the WLGA, asked whether national parks legislation could be considered as part of this. I understand that you might be inviting them to give evidence at a later date. They are included only as legislating authorities in this Bill—they have powers to revoke or amend existing by-laws, but not to create new ones. Also, the powers around explanatory notices do not apply to them; apparently it is dealt with in section 90 of the National Parks and Access to Countryside Act 1949."¹⁰⁰

Tystiolaeth y Gweinidog

143. Gan gyfeirio at y deddfiadau nad ydyn nhw wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Rhan 1 o Atodlen 1, dywedodd y Gweinidog:

"do not believe that lists are the appropriate approach. Part 1 clearly shows what is in, and if it is not in, it is out. That is pretty obvious to me. What I do not want to do is create a list

⁹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 32

⁹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 32

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 18 Ionawr 2012

that is limited, so that things outside the list could not be added at the appropriate time.”¹⁰¹

144. Gan gyfeirio'n benodol at gais Cyngor Abertawe am gynnwys Deddf Morglawdd Tawe, dywedodd y Gweinidog “I will give consideration to where that [Deddf Morglawdd Tawe] should be.”¹⁰²

145. Mewn llythyr at y Pwyllgor dyddiedig 6 Mawrth 2012, cadarnhaodd y Gweinidog:

“We will review the byelaw-making powers in these and other Local Acts which have been identified as a consequence of the Committee’s query to determine whether the ‘no confirmation’ procedure is appropriate.”¹⁰³

146. Pan ofynnwyd pam nad oedd y Parciau Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn awdurdod deddfu o dan y deddfiadau yn Rhan 1 o Atodlen 1, dywedodd y Gweinidog:

“there are elements of byelaws, for example ...national parks, that have national significance, and we would want consistency of decision-making processes on those ... they need ministerial confirmation, in order to have some sort of control around the decision making process.”¹⁰⁴

147. Dywedodd y Gweinidog hefyd “we believe that there are already provisions that are suitable for other organisations such as national park authorities”.¹⁰⁵

148. Eglurodd swyddog y Gweinidog fod y Bil yn caniatáu i'r Gweinidog gynnwys Parciau Cenedlaethol yn nes ymlaen. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

“the Bill does provide Ministers with the power to add these [National Parks] to the alternative procedure at a later date if they think that is appropriate”.¹⁰⁶

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 22 Chwefror 2012

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 72, 22 Chwefror 2012

¹⁰³ Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog: Llythyr 2, ar gael yn: <http://www.senedd.assemblywales.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=2413>

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 22 Chwefror 2012

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 22 Chwefror 2012

149. Er hynny, dywedodd y Gweinidog: “the whole reason for removing them [Parciau Cenedlaethol] from this process was that we recognised their significance and the controversy that surrounds them ...I am not minded to change my mind on this.”¹⁰⁷

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch Atodlenni 1 a 2 o'r Bil ac mae'n fodlon na ddylai'r Parciau Cenedlaethol ddod o dan y weithdrefn ddiwygiedig ynglŷn ag is-ddeddfau ar hyn o bryd.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried y mater a godwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch Deddf Morglawdd Tawe 1986, gyda golwg ar ei chynnwys hi, a deddfwriaeth berthnasol arall, yn Atodlen 1 os yw'n briodol.

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 22 Chwefror 2012

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 22 Chwefror 2012

12. Y goblygiadau ariannol

Y cefndir

150. Bydd yn ofynnol yn statudol i'r awdurdodau ymgynghori cyn gwneud is-ddeddfau penodol, a fydd yn arwain at gost. Amcangyfrifir cost o £2,000 i £3,000 am bob ymgynghoriad.

Tystiolaeth y tystion

151. Cafwyd peth pryder ymhlith y cynghorau tref a chymuned ynghylch cost gwneud is-ddeddfau. Dywedodd Un Llais Cymru:

“given the costs associated with byelaws ... it will only be the larger town councils who are likely to have the resources ... to act on the Bill”.¹⁰⁸

152. Aeth Un Llais Cymru ymlaen “there are a number of cost, capacity and training issues”.¹⁰⁹

153. Roedd Cyngor Tref Porthcawl hefyd yn credu bod yna gyfyngiadau ar gostau yn gysylltiedig â'r Bil, gan ddweud:

“the effectiveness of the proposals would be largely down to the personnel capacity, administration costs associated and the time factor as to whether Town and Community Councils would be able to manage the operation of local byelaws.”¹¹⁰

154. Er hynny, dywedodd Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf y Gogledd nad oedden nhw'n credu y dylai cost fod yn fater mawr.¹¹¹

155. Roedd CLILC o'r farn bod yr amcangyfrifon o'r costau yn y Memorandwm Esboniadol yn foddhaol, gan ddweud:

“the financial estimates ... could be regarded as a realistic indication of the current costs for an average byelaw. In particular, the option for authorities to issue fixed penalties as an alternative to prosecution via Magistrates Courts could

¹⁰⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

¹⁰⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 1

¹¹⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 15

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 92, 9 Chwefror 2012

realise some financial savings ... it is unlikely however that this would be significant and would be offset by additional administrative, staff capacity and/or training requirements.”¹¹²

156. Roedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hwythau'n credu mai bach iawn fyddai'r costau. Meddai Parc Cenedlaethol Eryri:

“It is not anticipated that the Bill will have any significant financial implications”.¹¹³

Tystiolaeth y Gweinidog

157. Pan ofynnwyd a fyddai'r gofynion ychwanegol ynglŷn ag ymgynghori yn dileu unrhyw arbedion a geid drwy ddileu'r gofyniad bod rhaid cael cadarnhad y Gweinidog, dywedodd y Gweinidog:

“I do not agree with that; I do not think that there is anything to support that evidence.”¹¹⁴

158. O'i holi am y goblygiadau o ran costau a oedd yn gysylltiedig â gwneud is-ddeddfau a hyfforddi staff, dywedodd y Gweinidog:

“I would be happy to look at that. I meet One Voice Wales regularly and it always asks me for additional funding for training.”¹¹⁵

159. Aeth y Gweinidog ymlaen:

“I am keen to support local authorities and local government in doing their job properly ... we are exploring how we support councils with their training provisions for new councillors, and we will be rolling that out after May. If there is anything that we can do to help the situation, at minimal cost or no cost, then I am always keen to explore that.”¹¹⁶

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y goblygiadau o ran costau a nododd y cynghorau tref a chymuned, ond mae'r Pwyllgor yn credu y dylai

¹¹² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 4

¹¹³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGB 5

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 156, 22 Chwefror 2012

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 22 Chwefror 2012

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 22 Chwefror 2012

haeriad y Gweinidog y gall y cynghorau tref a chymuned weithio gyda'r awdurdodau lleol leddfu unrhyw faich ariannol ar y cynghorau tref a chymuned wrth iddyn nhw roi is-ddeddfau ar waith.

13. Y tystion

160. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl dystiolaeth lafar ar gael i'w gweld yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=1306>

12 Ionawr 2012

Carl Sargeant AC Y Gweinidog Llywodraeth Leol a
Chymunedau

18 Ionawr 2012

Steve Thomas Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Daniel Hurford Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rod Jones Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
(Cyngor Dinas a Sir Abertawe)

1 Chwefror 2012

Lyn Cadwallader Un Llais Cymru

9 Chwefror 2012

Alan Guinn Cymdeithas Cynghorau Trefi a
Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru
Robert Robinson Cymdeithas Cynghorau Trefi a
Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru
Iwan Jones Parc Cenedlaethol Eryri

22 Chwefror 2012

Carl Sargeant AC Y Gweinidog Llywodraeth Leol a
Chymunedau

14. Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

161. Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=2413>

<i>Enw / Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Un Llais Cymru	LGB 1
Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel	LGB 2
Cyngor Tref Cricieth	LGB 3
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	LGB 4
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	LGB 5
Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (ACPO)	LGB 6
Cyngor Tref Porthaethwy	LGB 7
Y Cyngorydd J Bishop LLM – Cyngor Tref Pontypridd	LGB 8
Cyngor Tref Cei Connah	LGB 9
Cyngor Cymuned Dinas Powys	LGB 10
Cyngor Tref y Rhyl	LGB 11
Cyngor Tref Rhuddlan	LGB 12
Cyngor Cymuned Henllys	LGB 13
Cyngor Tref yr Wyddgrug	LGB 14
Cyngor Tref Porthcawl	LGB 15
Cyngor Cymuned Llandochoau	LGB 16
Cyngor Tref Penarth	LGB 17
Cyngor Tref Llandudno	LGB 18
Cyngor Tref Abergele	LGB 19
Cyngor Cymuned Graig	LGB 20
Cyngor Sir y Fflint	LGB 21
Cyngor Tref Dinbych	LGB 22

Cyngor Sir Caerfyrddin	LGB 23
Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy	LGB 24
Cyngor Tref Hwlfordd	LGB 25
Cyngor Tref Gorseinon	LGB 26
Cyngor Cymuned Llandyfaelog	LGB 27
Cymdeithas Cyngorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru	LGB 28
Cyngor Cymuned Rhos-ddu	LGB 29
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	LGB 30
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	LGB 31
Parciau Cenedlaethol Cymru	LGB 32